Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl211

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** 2021/22 Dosbarthu Taflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, yn gyfrifol am osod lefel Praesept yr Heddlu ar gyfer ardal Dyfed-Powys. Tynnodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2013 y rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys copi papur o'r Llyfryn Dreth Gyngor a'r daflen Heddlu gyda'r Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor blynyddol. Y gofyniad presennol yw cyfeirio'r cyhoedd at y wefan lle gellir cael hyd i'r llyfryn/daflen, a dim ond rhoi copi caled os gwnaed cais amdano gan y cwsmer.

Mae SCHTh yn flaenorol wedi dosbarthu copïau papur o Daflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor i breswylwyr ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y rhesymu y tu ôl i benderfyniad blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth osod lefel y praesept.

Wrth gynllunio ar gyfer taflen 2021/22, mae Swyddfa'r Comisiynydd (SCHTh) wedi cysylltu gyda chydweithwyr yn SCHTh Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru; ac y mae pob un ohonynt wedi cadarnhau nad ydynt bellach yn argraffu copïau caled o'u taflenni.

Gwnaeth Mr Llywelyn y penderfyniad i ddechrau i barhau gyda dosbarthu copïau caled o'r daflen i breswylwyr ar draws Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, ond oedd yn bwriadu treialu ymagwedd ddigidol yn Sir Gaerfyrddin, lle na fydd preswylwyr bellach yn mynd i dderbyn copi caled drwy'r post, oni bai y gwneir cais penodol am hynny. Byddai'r ddolen i'r daflen wedi'i rhannu ar wefan Cyngor Sir Gâr, gwefan SCHTh a thrwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Gwnaed y penderfyniad uchod ar 26/01/2021. Gofynnodd yr OPCC am arweiniad gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (PARO) ynghylch cynnwys y Daflen, ac ar 11/02/2021, cyfarwyddodd y PARO yr OPCC ynghylch cynnwys y daflen, ond hefyd bod rhaid copi caled o'r dylid cael ei postio i'r holl breswylwyr ar draws ardal Dyfed-Powys.

**Argymhelliad:**

Bod Taflen Dreth Cyngor Precept yr Heddlu yn cael ei dosbarthu trwy'r post i drigolion y pedair sir ar draws ardal Dyfed-Powys.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**

**Dyddiad: 11.02.21**